OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 886 (Cy.101)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud	- -	*27 Mawrth 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(2), 6(3), 7(6) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad gwerth gorau o fewn yr ystyr a briodolir i "best value performance plan" yn adran 6(1) o'r Ddeddf;

ystyr "dadansoddiad awdurdod cyfan" ("*whole authority analysis*") yw adolygiad gwerth gorau o holl swyddogaethau awdurdod gwerth gorau o fewn yr ystyr a briodolir i "best value reviews" yn adran 5 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r awdurdodau hynny a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf.

Cyfnod cynnal dadansoddiadau

2. Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gynnal dadansoddiad awdurdod cyfan erbyn 30 Mehefin 2003 a rhaid iddynt gynnal dadansoddiad awdurdod cyfan pellach cyn diwedd pob cyfnod o bum mlynedd wedi hynny.

Dyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella

3. Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella ar gyfer blwyddyn ariannol benodol erbyn 30 Mehefin yn ystod y flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

(**1**) 1999 p.27.